

# WYTHNOS 1 WEEK 1

## CYMRAEG CYNLLUN DYSGU ADREF TYMOR YR HAF
## SUMMER TERM HOME LEARNING PLAN

| | LLUN MON | MAW TUE | MER WED | IAU THU | GWE FRI |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd: ifanc Primary: young | Selog Canu2 Tŷ Bach Twt - dysgu'r gân / learn the song<br>taflen dysgu 1a / 1a worksheet | Selog Canu2 Tŷ Bach Twt dysgu'r gân / learn the song<br>Creu tŷ bach i degan & esbonia/ make a house for a toy & explain | Selog Symud Pwy sy' mlaen? dysgu / learn rhyme<br>Tynnu llun o'r pry & mam / Draw a picture of the rhyme | Ap Canu 2 Abc gwrando a chanu / listen & start singing<br>Tric & Chlic ffurfio llythyren â bys / form letter with finger | Ap Mudiad M Dewin a Doti'n Mynd i'r Parc - darllen / read<br>Symud Selog: canfod/darlunio llygaid y dydd, cyfri a neud cadwyn/ find/draw daisy. Count petals & make daisy chain |
| Cynradd: hynach Primary: older | Canu1 Selog: Oes Gafr Eto? Dysgu geiriau a taflen dysgu 1b. Learn words & 1b worksheet.<br>Creu gafr yn greadigol/ Imaginativeley create a goat | Symud Selog: cennin Pedr / daffodil taflen dysgu 1c & symbolau symbols & 1c worksheet.<br>Creu cerdyn/ pwerbwynt am Gymru. Present Wales on a postcard /powerpoint | Canu1 Selog: Oes Gafr Eto? Canu & taflen 1ch treiglo. Sing & mutation 1ch worksheet.<br>Creu poster enfys 'Diolch' a'i osod allan. Create rainbow 'Diolch' poster | Ap Canu 2 dysgu canu Abc learn to sing Welsh alphabet<br>Creu cyflwyniad o'r wyddor gyda gair & llun. Present alphabet with picture &word for each letter. | Llyfrau Selog Alun a Sbectol ei Dad: gwrando a deall 1d/ listen & respond 1d.<br>Symud Selog: canfod/ymchwil i lygaid y dydd. Esbonia a yw'n 1 blodyn? Find/research daisy. Is it 1 flower? |
| her & hwyl! challenge & fun! | Her Elin Challenge: Creu stori/story → | Origami | Ymchwil byd World research | Pos Puzzle | Tangram Templed 1dd Template |
| | Hwyl efo Fun with Angharad → | Canu efo Singing with Rich.<br>Wici efo Wiki with Aaron | Hwyl efo Fun with Angharad | Canu efo Singing with Rich.<br>Wici efo Wiki with Aaron | Hwyl efo Fun with Angharad |
| | Hwb dysgu pynciau ar-lein - Adnoddau **hwb.gov.wales** Resources - on-line subject learning hwyl ar-lein/ fun on-line activities: http://**mentrauiaith.cymru**/digwyddiadaur-mentrau-iaith | | | | |
| | S4C Cyw / Stwnsh → | Awr Fawr 16:00, Rownd a Rownd 20:25 | Cyw (younger) Stwnsh (older) | Awr Fawr 16:00, Rownd a Rownd 20:25 | Cyw (younger) Stwnsh (older) |
| Cyn-ysgol & Pre-school & | Ap Magi Ann Helo / Hello<br>Llun print llaw Hand print picture | Bys&Bawd Ble Mae Bawdyn? / Where's thumb?<br>Llun print bawd Thumb print picture | Magi Ann Helo / Hello<br>Chwifio Helo i bawb Waving Hello to all | Bys&Bawd Ble Mae Bawdyn? / Where's thumb?<br>Cyfri 1-5 ar fysedd/finger counting 1-5 | Recordio canu Ble Mae Bawdyn? Record child singing<br>Casglu setiau 5 / Collect sets of 5 |
| Teulu oll All family | Ioga Selog Plentyn / Child<br>Seiat Selog: Discuss: Ydi anifeiliad yn gwenu? Do animals smile? | Symud Selog Pwy Sy Mlaen? / Who's On?<br>Seiat Selog: Discuss: A yw arwres yn ofni? Can a hero be scared? | Ioga Selog Plentyn / Child<br>Seiat Selog: Discuss: Ydi du yn liw? Is black a colour? | Symud Selog Pwy Sy Mlaen? Who's On?<br>Seiat Selog: Discuss: Gall pry weld enfys? Can a fly see a rainbow? | S4C CywTiwb Heini - fitness<br>Seiat Selog: Discuss: Gall cath fod yn gyfoethog? Can a cat be rich? |

**I annog plant i weithio'n annibynnol ar yr uchod bydd angen lawrlwytho apiau di-dâl Selog x5, apiau Magi Ann, Bys a Bawd, Dewin a Doti, Tric & Chlic, CywTiwb & S4Clic. Ceir manylion a'r holl adnoddau i'r cynlluniau wythnosol gyda chyfle i ymateb i waith y plant ar:**

**To encourage your child to work independently download these free apps: Selog x5, Magi Ann, Bys a Bawd, Dewin a Doti, Tric a Chlic, CywTiwb & S4Clic. All details & free printout resources for the plan & responses to children's work available from:**

**Selog Ap @SelogAp selog@mentermon.com / 07703671265** **©MenterIaithMôn 2020**


©MenterIaithMon 2020

# 12 Wythnos o Gymorth i Ddysgu Adref!

Adnodd Selog i ddysgu adref yw hwn, gyda sawl math o deulu mewn golwg gan gynnwys teuluoedd:

- di-Gymraeg ble mae'r plant yn methu ar y cyfle i barhau gyda'u haddysg Gymraeg drwy'r ysgol,
- ble mae'r rhiant yn gweithio o adref a heb amser i addysgu nac yn wir i roi llawer o sylw i'r plant ar adegau,
- Cymraeg iaith-gyntaf sy'n awyddus i gael adnoddau Cymraeg strwythuredig ond heb yr amser i fynd i chwilio ym mhob man,
- ble mae niferoedd y plant neu brysurdeb gofal ychwanegol yn ormod o bwysau eisoes, cyn dechrau meddwl am gynllunio dysgu.

Mae'r cynllun yn fras at ddefnydd teuluoedd gyda phlant oed cynradd neu iau. Gosodir y gwaith mewn bandiau, heb bennu oed penodol gan fod datblygiad a mynediad at y Gymraeg pob plentyn yn wahanol. Dylid anelu i gael plant yn gweithredu yn y bandiau melyn a gwyrdd yn lled annibynnol, gan fod sgiliau gweithio'n annibynnol yn un o dargedau addysg. Fodd bynnag, yn y bandiau glas, mae galw am fwy o sylw i'r plant oed cyn-ysgol, yn ogystal ag i'r gweithgareddau teulu. Pwrpas rhain yw cyfleoedd cydweithio, cyfathrebu a hefyd i wrando ar lais y plentyn wrth iddynt resymu a datblygu sgiliau cyflwyno syniadau, gwrando ar eraill, ac addasu eu dadleuon (nid oes atebion cywir i 'Seiat Selog' – rhywbeth ysgafn gellid ei gadw tan amser bwyd).

I weithio fel adnodd annibynnol diogel, mae angen lawrlwytho'r apiau di-dâl canlynol: ***Selog*** (x5 ***Canu***, ***Canu2***, ***Llyfrau***, ***Ioga***, ***Symud***), ac i'r plant iau yn benodol ***Magi Ann*** (mae dewis helaeth yn ôl yr oedran ond yma cyfeirir at ***Llyfrau Bach Magi Ann*** a ***Llyfr Hwyl 4 Magi Ann*****)**, ***Bys a Bawd***, ***Dewin a Doti***, a ***Tric a Chlic***. Adnodd penigamp, fel amheuthun am weithio'n annibynnol, yw ap ***Cyw Tiwb*** (neu ***S4Clic*** i'r plant hŷn), dylid ei ystyried fel adnodd gwerthfawr dysgu Cymraeg i deuluoedd di-Gymraeg, gan ychwanegu at eirfa siaradwyr Cymraeg iaith-gyntaf hefyd. Yna, i symbylu'r plant ar ddechrau'r wythnos, bydd clipiau fideo gan Elin yn ymddangos ar **Facebook** newydd **Selog**, gan amlygu amserlen yr wythnos a hefyd gosod yr heriau a dangos safle ioga'r wythnos. Ar Facebook ceir **y taflenni gwaith i'w lawrlwytho'n wythnosol** ac yn yr un modd croesewir y plant i rannu lluniau o'u gwaith er mwyn derbyn adborth cadarnhaol. Mae modd hefyd dderbyn y taflenni gwaith a chopïau o eirfa a chyfieithiad yr holl apiau (heblaw am Llyfrau) drwy e-bostio selog@mentermon.com.

Cynigir gwobrau i annog y disgyblion i ddal ati, ac iddynt gael clod yn eu hysgolion. Mae cyfle i gofrestru fel aelod o **'Clwb Selog'** gyda'u henwau cyntaf yn unig ag enw eu hysgol drwy riant yn e-bostio at selog@mentermon.com. Pan fydd yr ysgolion nol yn eu trefn, tynnir 3 enw o'r het er mwyn i 3 **ysgol lwcus dderbyn ymweliad gan Selog** a sesiwn canu, stori, symud a ioga i'r plant yn nosbarthiadau'r plant buddugol. Yn ogystal bydd **2 wobr wythnosol o lyfr straeon** i blant sy'n rhannu eu gwaith â Selog, unai drwy Facebook Selog Ap, trydar @SelogAp neu drwy e-bostio selog@mentermon.com. Y gobaith yw y bydd Selog yn llwyddo rhoi ychydig o sylw ac adborth i'r plant lle na all y rhieni ymateb bob tro, gan hefyd **rannu'r atebion i'r gwaith** bob **dydd Gwener ar Facebook**. Bydd hyn yn gyfle i'r plant, fel ag yn yr ysgol, i farcio a hunan asesu yn annibynnol. Dim ond staff cymwysedig i weithio gyda phlant, yn athrawon neu hyfforddwyr, ac yn gweithredu i bolisi amddiffyn plant Menter Iaith Môn gan feddu ar DBS clir, sydd am gyfathrebu ar ran Selog ar fb/trydar/e-bost.

Paratowyd yr adnodd ar frys i ymateb i'r galw gan deuluoedd felly gwerthfawrogwn unrhyw adborth gennych. Llwyddiant yr ymdrech fydd clywed eich bod fel oedolion wedi cael cyfle i gefnogi addysg annibynnol y plentyn adref yn defnyddio apiau. Mae cyfoeth o weithgareddau Cymraeg ar-lein hefyd, i'w weld ar http://mentrauiaith.cymru/digwyddiadaur-mentrau-iaith/. Ac o ran adnoddau addysgiadol ar-lein, y man cychwyn yng Nghymru yw 'Hwb' gyda llawer o adnoddau pynciol ar https://hwb.gov.wales/ Adnoddau. Felly peidiwch anobeithio o ystyried her dysgu adref. I'ch atgoffa, diben Cwricwlwm i Gymru yw meithrin:

1. ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
2. cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
3. dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
4. unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Ac yn y cyfnod yma o ddysgu adref, y sgiliau sy'n hanfodol eu meithrin i gyflawni'r pedwar diben uchod yw:

- creadigrwydd ac arloesi
- meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- effeithiolrwydd personol
- cynllunio a threfnu

Felly annibyniaeth amdani! I chi… a'r plant. Yn ogystal byddwch yn cyflawni un o amcanion eraill y Cwricwlwm, o dan ofynion y Siarter Iaith, sef: 'Arweiniad i ddysgwyr ynghylch cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith tu hwnt i'r ysgol ac anogaeth a chefnogaeth i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg drwy dechnoleg a chyfryngau cymdeithasol."

Pob lwc a bendith, gan obeithio bydd adnodd Selog, o 12 wythnos, yn gymorth i'r teulu ddysgu o adref drwy Dymor yr Haf.

19/4/2020 ©MenterIaithMôn
selog@mentermon.com
https://www.facebook.com/Selog-Ap-108446124169621/

# 12 Weeks of Support Learning at Home…in Welsh!

This Selog resource is for learning from home for families which will hopefully be particularly useful to eg:

- non-Welsh speaking families where children, out of school, no longer have the opportunity to learn Welsh,
- families where the parent is working from home, so not free to teach or give children much attention,
- Welsh-speaking families who need a plan but don't have the time to seek out scattered resources,
- families where many children or other extra caring duties is a full-time job without planning for teaching.

The plan is for families with primary school children or younger. The work is set out in colour bands, without attaching ages, as children's development and access to Welsh varies for each individual. Since independent learning is a teaching aim, the target for children working in the yellow or green bands to be reasonably independent. Naturally in the blue bands more attention is needed, with the pre-schoolers as well as the family activities. The aim of the latter is to give opportunities to cooperate, communicate and also to listen to the child as they reason and develop their communication skills by presenting ideas, listening to others, and adapting their arguments accordingly (there are no right answers for Seiat Selog discussions).

To be useful as an independent and safe teaching resource, you'll need to download the following free apps: ***Selog*** (x5 ***Canu***, ***Canu2*** (both singing), ***Llyfrau*** (books), ***Ioga*** (ioga), ***Symud*** (fitness & nature)); and specifically for the younger children ***Magi Ann*** (a whole range of apps but references here to ***Llyfrau Bach Magi Ann*** and ***Llyfr Hwyl 4 Magi Ann***), ***Bys a Bawd***, ***Dewin a Doti***, and ***Tric a Chlic***. A brilliant app for a treat for working independently is ***Cyw Tiwb*** app (or ***S4Clic,*** looking out for 'Stwnsh' or 'Rownd a Rownd' with subtitles, for the older children) which should be considered as a valuable Welsh teaching resource for non-Welsh-speaking households, as well as enriching the vocabulary of first-language speakers too. Then, to motivate the children at the beginning of each week, video clips by Elin will appear on **Selog**'s new **Facebook** page, where she'll outline the weeks plan as well as set the challenges and try out the week's yoga pose. Also on Facebook you'll find the **free worksheets to downlad** and to reciprocate children are welcome to share pictures of their work in order to receive positive feedback. To receive the worksheets and Welsh and English text for all the Selog apps (apart from the Books) you can email selog@mentermon.com.

**Prizes** are offered to encourage pupils to persevere, and to gain praise from their schools. By emailing their first name only and school to selog@mentermon.com they become members of the '**Clwb Selog**' club and when the schools are back to normal three lucky winners will be drawn with a **Selog Visit** to those children's **schools**/classes for a combined singing, story, fitness and yoga session. Furthermore there'll be **2 story book prizes a week** for children sharing their work with Selog, either on Facebook, twitter @SelogAp or through emailing selog@mentermon.com. The hope is that Selog succeeds in giving some attention and feedback to the children when parents cannot always respond. Also the **answers to worksheets** will be shared on **Fridays on Facebook** enabling the children to mark and self-assess their own work independently, as they would do in school. Only staff professionally qualified to work with children as teachers or trainers, with clear DBS and working to Menter Iaith Môn's Child Protection Policy, will communicate on behalf of Selog on fb/twitter/email.

This resource has been put together in a rushed response to requests by families, so we appreciate any of your feedback. It will be deemed a success, if it's provided you with the opportunity to support the independent learning of your child at home using apps. As for on-line activities, there's a wealth on offer on http://mentrauiaith.cymru/digwyddiadaur-mentrau-iaith/?lang=en. As for educational resources on-line, the go-to destination in Wales is https://hwb.gov.wales/ Resources. Don't be daunted by the home-teaching challenge. As a reminder the 4 purposes of the Curriculum for Wales are to foster:

1. ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives
2. enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work
3. ethical, informed citizens of Wales and the world
4. healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society

And in this time of learning from home, the integral skills that need to be developed to achieve the above purposes are:

- creativity and innovation
- critical thinking and problem-solving
- personal effectiveness
- planning and organising

So independent learning it is then! For you … and the children. In addition, you will also be fulfilling another Curriculum goal under the Welsh Language Charter, namely: "Guidance given to learners about opportunities to use the language beyond school and encouragement and support for learners to use Welsh through technology and social media."

All the best to you, in the hope that this 12-week Summer Term Selog resource will be helpful to you as you support your family learning from home.


19/4/2020 ©MenterIaithMôn
selog@mentermon.com

https://www.facebook.com/Selog-Ap-108446124169621/




| | |
|---|---|
| | Enw<br>Name: ______________________ |
| | Ysgol<br>School: |

# Cynllunio & Hunan Asesu Planning & Self-Assessment




**1. Rwy'n cynllunio i drïa:** (Cylchwch y gweithgareddau gyda **phensel**)

**1. I plan to try:** (Circle the activities with a **pencil**)

**2. Llwyddais orffen:** (Cylchwch y gweithgareddau mewn gyda **beiro glas**)

**2. I succeeded to finish:** (Circle the activities with a **blue pen**)

| | LLUN MON | MAW TUE | MER WED | IAU THU | GWE FRI |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd: ifanc Primary: young | Selog Canu2 Tŷ Bach Twt - dysgu'r gân / learn the song<br>taflen dysgu 1a / 1a worksheet | Selog Canu2 Tŷ Bach Twt dysgu'r gân / learn the song<br>Creu tŷ bach i degan & esbonia/ make a house for a toy & explain | Selog Symud Pwy sy' mlaen? dysgu / learn rhyme<br>Tynnu llun o'r pry & mam / Draw a picture of the rhyme | Ap Canu 2 Abc gwrando a chanu / listen & start singing<br>Tric & Chlic ffurfio llythyren â bys / form letter with finger | Ap Mudiad M Dewin a Doti'n Mynd i'r Parc - darllen / read<br>Symud Selog: canfod/darlunio llygaid y dydd, cyfri a neud cadwyn/ find/draw daisy. Count petals & make daisy chain |
| Cynradd: hynach Primary: older | Canu1 Selog: Oes Gafr Eto? Dysgu geiriau a taflen dysgu 1b. Learn words & 1b worksheet.<br>Creu gafr yn greadigol/ Imaginativeley create a goat | Symud Selog: cennin Pedr / daffodil taflen dysgu 1c & symbolau symbols & 1c worksheet.<br>Creu cerdyn/ pwerbwynt am Gymru. Present Wales on a postcard /powerpoint | Canu1 Selog: Oes Gafr Eto? Canu & taflen 1ch treiglo. Sing & mutation 1ch worksheet.<br>Creu poster enfys 'Diolch' a'i osod allan. Create rainbow 'Diolch' poster. | Ap Canu 2 dysgu canu Abc learn to sing Welsh alphabet<br>Creu cyflwyniad o'r wyddor gyda gair & llun. Present alphabet with picture &word for each letter. | Llyfrau Selog Alun a Sbectol ei Dad gwrando a deall 1d/ listen & respond 1d.<br>Symud Selog: canfod/ymchwil i lygaid y dydd. Esboni a yw'n 1 blodyn? Find/research daisy. Is it 1 flower? |
| Her & hwyl! challenge & fun! | Her Elin Challenge: Creu stori/story | Origami | Ymchwil byd World research | Pos Puzzle | Tangram Templed 1dd Template |
| | Hwyl efo Fun with Angharad | Canu efo Singing with Rich. Wici efo Wiki with Aaron | Hwyl efo Fun with Angharad | Canu efo Singing with Rich. Wici efo Wiki with Aaron | Hwyl efo Fun with Angharad |
| | Hwb dysgu pynciau ar-lein - Adnoddau hwb.gov.wales Resources - on-line subject learning hwyl ar-lein/ fun on-line activities: http://mentraviaith.cymru/digwyddiadaur-mentrau-iaith | | | | |
| | Cyw / Stwnsh | Awr Fawr 16:00, Rownd a Rownd 20:25 | Cyw (younger) Stwnsh (older) | Awr Fawr 16:00, Rownd a Rownd 20:25 | Cyw (younger) Stwnsh (older) |
| Cyn-ysgol & Pre-school | Ap Magi Ann Helo / Hello<br>Llun print llaw Hand print picture | Bys&Bawd Ble Mae Bawdyn? / Where's thumb?<br>Llun print bawd Thumb print picture | Magi Ann Helo / Hello<br>Chwifio Helo i bawb Waving Hello to all | Bys&Bawd Ble Mae Bawdyn? / Where's thumb?<br>Cyfri 1-5 ar fysedd/finger counting 1-5 | Recordio canu Ble Mae Bawdyn? Record child singing<br>Casglu setiau 5 / Collect sets of 5 |
| Teulu oll All family | Ioga Selog Plentyn / Child<br>Seiat Selog: Discuss: Ydi anifeiliad yn gwenu? Do animals smile? | Symud Selog Pwy Sy Mlaen? / Who's On?<br>Seiat Selog: Discuss: A yw arwres yn ofni? Can a hero be scared? | Ioga Selog Plentyn / Child<br>Seiat Selog: Discuss: Ydi du yn liw? Is black a colour? | Symud Selog Pwy Sy Mlaen? Who's On?<br>Seiat Selog: Discuss: Gall pry weld enfys? Can a fly see a rainbow? | S4C CywTiwb Heini - fitness<br>Seiat Selog: Discuss: Gall cath fod yn gyfoethog? Can a cat be rich? |

(Bydd atebion taflenni gwaith ar Facebook Selog bob dydd Gwener – Worksheet answers will be on Selog Facebook on Fridays)

| | | |
|---|---|---|
| | Llwyddais…<br>I succeeded… | |
| | Dysgais…<br>I learnt… | |
| | Rwyf am wella…<br>I want to improve… | |


©MenterIaithMon 2020




| | |
|---|---|
| Taflen<br>Sheet:<br>**1a** | Enw<br>Name: ______________________<br>Ysgol<br>School: |

# Tŷ Bach Twt

**Tidy Little House**


**1. Dysga'r gân / Learn the song from Selog Canu 2 app**



**Tŷ Bach Twt**

Mae gen i dipyn o dŷ bach twt,
o dŷ bach twt, o dŷ bach twt.
Mae gen i dipyn o dŷ bach twt,
a'r gwynt i'r drws bob bore.
*Hei di ho, di hei, di hei, di ho,*
*a'r gwynt i'r drws bob bore.*

**2. Sut mae cyrraedd y tŷ? How do I get home?**





**3. Llenwa'r bylchau: Fill in the blanks:**

Mae gen i dipyn

o ________ bach ___________,

o dŷ bach twt,

o dŷ ____________ twt.

_________ gen i dipyn

o dŷ bach twt,

a'r _________ i'r _________

bob _____________.


©MenterIaithMon 2020




Taflen Sheet: **1b**

Enw Name: ______________________

Ysgol School:

# Oes Gafr Eto?

**Is there another goat?**

## 1. Dysga'r gân / Learn the song from Selog Canu App



**<u>Oes Gafr Eto?</u>**

Oes gafr eto?
Oes heb ei godro?
Ar y creigiau geirwon,
mae'r hen afr yn crwydro.

Gafr *wen, wen, wen,*
ie fin*wen*, fin*wen*, fin*wen*,
foel gynffon*wen*, foel gynffon*wen*,
ystlys *wen* a chynffon, *wen-wen-wen*.

Oes gafr eto?
Oes heb ei godro?
Ar y creigiau geirwon,
mae'r hen afr yn crwydro.

Gafr *goch*...Gafr *ddu*...Gafr *las*...Gafr *binc*...Gafr *lwyd*...
Gafr *werdd*...Gafr *frown*...Gafr *biws*...

## 2. Chwilia am eiriau o'r gân / Find words from the song

### Oes Gafr Eto?

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | S | Y | L | T | S | Y | O | F | O | O | W | N | F |
| Y | N | N | E | Y | F | W | S | E | E | O | H | N | N |
| S | W | Y | C | N | T | F | E | O | H | G | E | E | O |
| E | E | D | F | R | Y | O | O | G | F | N | I | T | N |
| N | G | O | R | E | W | R | W | A | Y | O | E | W | N |
| R | O | F | N | S | O | Y | O | F | O | N | E | H | R |
| O | S | E | E | E | G | F | D | R | W | H | W | L | F |
| T | E | N | H | F | Y | N | E | R | R | A | H | D | N |
| N | O | F | F | N | Y | H | C | G | O | T | D | W | H |
| E | R | O | G | Y | N | F | F | O | N | W | E | N | Y |
| W | O | W | L | N | G | F | I | N | W | E | N | O | N |
| E | F | G | O | R | D | O | G | E | S | L | N | E | E |
| H | Y | F | Y | F | G | E | I | R | W | O | N | N | D |
| O | G | E | H | H | E | N | H | S | O | T | G | W | N |

GAFR
GYNFFONWEN
OES
GODRO
CRWYDRO
FOEL
YSTLYS ★
GEIRWON
CHYNFFON
HEN
ETO
FINWEN
HEN

**3. Dy amser i greu gafr!** Defnyddia dy ddychymyg ac unrhyw adnoddau… pridd, dail, papur, plastic, tywod, lego, clai, defnydd, perlau, bwyd, dodrefn, beth bynnag sydd yn y tŷ (gyda chaniatâd!).
Cofia ddanfon llun at selog@mentermon.com neu gofyn i riant ei ddanfon at facebook Selog Ap.

**Your time to create a goat!** Use your imagination and any resources… earth, leaves, paper, plastic, sand, lego, clay, fabric, beads, food, furniture, whatever's in the house (with permission!).
Remember to send a photo to selog@mentermon.com or ask a parent to send it to Selog Ap facebook.


©MenterIaithMon 2020

| | | |
|---|---|---|
|   | Taflen Sheet: **1c** | Enw Name: ______________________ Ysgol School: |



# Cennin Pedr a Symbolau Cymru

## Daffodils and Symbols of Wales



Ar wefan www.cymru.com, rhestrir y canlynol fel symbolau Cymru:
On the https://www.wales.com/national-symbols-wales, the following are listed as symbols of Wales:

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Baner Cymru** **Welsh flag** | **Cennin Pedr** **Daffodil** | **Cenhinen** **Leek** | **Yr iaith Gymraeg** **Welsh language** | **Plu Tywysog Cymru** **Prince of Wales feathers** | **Llwy garu** **Lovespoon** | **Corau meibion** **Male voice choir** | **Barcud coch** **Red kite** | **Y Delyn** **Harp** | **Rygbi** **Rugby** |

1. Yn dy farn di, pa 4 symbol yw'r pwysicaf a pam? In your opinion which are the most important? Why?

| Pwysicaf / Important | Pam? / Why? |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

2. Pa 4 symbol gwahanol o Gymru hoffet gynnwys ar y rhestr? What 4 different symbols would you add?

| Symbol newydd / New symbols | Pam? / Why? |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

3. Mae gan Jamaica ffrwyth a choeden genedlaethol hefyd. Pa goeden a ffrwyth sy'n addas fel symbol cenedlaethol i Gymru? Jamaica has a tree and fruit symbol too, what would be suitable for Wales?

| Symbolau natur: Nature symbols: | Jamaica | Posib i Gymru Possible for Wales | Pam? Why? |
|---|---|---|---|
| Ffrwyth: Fruit: | ackee | | |
| Coeden: Tree: | Blue Mahoe | | |


©MenterIaithMon 2020




| | | |
|---|---|---|
| | Taflen Sheet: **1ch** | Enw Name: ______________________ Ysgol School: |

# Adnabod Treiglo yn 'Oes Gafr Eto?'

**Spotting mutations in 'Oes Gafr Eto?'**

| | | |
|---|---|---|
|  | **<u>Oes Gafr Eto?</u>**<br>Oes gafr eto?<br>Oes heb ei godro?<br>Ar y creigiau geirwon,<br>mae'r hen afr yn crwydro.<br><br>Gafr *wen, wen, wen*,<br>ie fin*wen*, fin*wen*, fin*wen*,<br>foel gynffon*wen*, foel gynffon*wen*,<br>ystlys *wen* a chynffon, *wen-wen-wen*. | Oes gafr eto?<br>Oes heb ei godro?<br>Ar y creigiau geirwon,<br>mae'r hen afr yn crwydro.<br><br>Gafr ***goch***...Gafr *ddu*...Gafr *las*...Gafr *binc*...Gafr *lwyd*...<br>Gafr *werdd*...Gafr *frown*...Gafr *biws*... |

1. Rydym yn hoffi addasu i sŵn iaith yn y Gymraeg. Treiglo yw'r gair am hyn. Ceir esiampl yn y gân wrth ddisgrifio gafr. Sut mae'r geiriau yma wedi treiglo (wedi newid) yn y gân?
We like to adapt the smooth sound of a language in Welsh. We call this 'mutation'. In the song, words mutate when describing a goat (gafr). What are the mutations (changes) for these words in the song?

Gafr...

| | | | |
|---|---|---|---|
| **coch** | goch ✓ | **llwyd** | ____________ |
| **du** | ____________ | **gwyrdd** | ____________ |
| **glas** | ____________ | **brown** | ____________ |
| **pinc** | ____________ | **piws** | ____________ |

2. Defnyddia'r patrwm uchod i ddyfalu sut mae treiglo: Use the pattern to guess how to mutate:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **cas** | gas ✓ | **llawen** | ____________ |
| **distaw** | ____________ | **gwyllt** | ____________ |
| **gwirion** | ____________ | **boliog** | ____________ |
| **pwysig** | ____________ | **prysur** | ____________ |

3. Rhestrwch liwiau'r enfys yn eu trefn: List the colours of the rainbow in order:

______________________________________________________________________

4. Gwnewch boster 'Diolch' i'r staff meddygol a gofal, gan gynnwys enfys os oes gennych liwiau adref / Make a 'Diolch' poster for medical and all essential workers, include a rainbow if you have colour pens or paint at home.







©MenterIaithMon 2020

|   | Taflen Sheet: **1d** | Enw Name: ______________________<br>Ysgol School: |
|---|---|---|

# Alun yr Arth a Sbectol ei Dad – Gwrando a Deall

**Alun yr Arth a Sbectol ei Dad (Alun the Bear and His Dad's Spectacles) – Listen to the app to answer**




**1. Pwy oedd yn meddwl fod teganau ar gyfer babis?** **Who thought toys were for babies?**

*Alun oedd yn meddwl fod teganau ar gyfer babis. ✓*

**2. Beth oedd wedi disgyn o boced dad?** **What had fallen out of dad's pocket?**

______________________________________________________________

**3. Pa dri pherson welodd Alun wrth yrru'r car?** **Who were the three people who saw Alun driving?**

______________________________________________________________

**4. Pam oedd ei fam yn meddwl mai dad oedd Alun?** **Why did his mother mistake Alun for his father?**

______________________________________________________________

**5. Pwy oedd yn disgwyl am y bws?** **Who was waiting at the bus stop?**

______________________________________________________________

**6. Beth yw enw tad Alun?** **What's Alun's father's name?**

______________________________________________________________

**7. Pwy gafodd y bai reit ar ddiwedd y stori?** **Who got the blame right at the end of the story?**

______________________________________________________________



©MenterIaithMon 2020




| Taflen Sheet: 1dd | Enw Name: ______________________ Ysgol School: |
|---|---|

# Templed o Tangram i'w dorri o gardfwrdd a lliwio

## Tangram template to cut from cardboard and colour





©MenterIaithMon 2020




# Heriau a Hwyl yr Wythnos
# Weekly Challenges & Fun

(Gweler fideo wythnosol ar facebook SelogAp. Heriau Nos Sul / Atebion Prynhawn Gwener)
(See the weekly videos on SelogAp facebook. Challenges on Sunday evening / Answers on Friday pm)

Y fideo ar gyfer wythnos 1 https://www.facebook.com/SelogAp/videos/333813364246807/ Video for week 1

**Llun - Monday**

**Stori / Story**



**Dis a daflwyd:** Dafad, goriad, ffon, llygaid, blodyn. Ceisiwch gynnwys y rhain yn ddychmygus yn eich stori. Gall eich stori fod ar unrhyw ffurf: yn ysgrifenedig, wedi dweud ar lafar, fideo, animeiddio lego, darluniadau cartŵn, chi sy'n dewis!
**The dice that were thrown:** Sheep, key, stick, eye, flower – use them imaginatively in your story on any format – it could be written, narrated, a video, lego animation, cartoon drawings, it's up to you!

**Mawrth - Tuesday**

**Origami**



Calon (gweler y arddangosiad ar y fideo neu y linc yma )
Heart (see demo on the video or click link here)
https://www.origamiway.com/origami-heart.shtml

**Mercher - Wednesday**




**Ymchwil y Byd / World Research**


Y cerdyn a dynnwyd: Inuit o Alaska
Canfyddwch unrhyw beth fedrwch am eu ffordd o fyw: ee Beth sy'n bwysig iddynt? Sut mae eu byd yn newid? Beth sy'n wahanol ac yn werthfawr am eu ffordd o fyw?
The card that was drawn: Inuit from Alaska
Find out anything you can about their way of life: eg What's important to them? How is their world changing? What is different but valuable about their way of life?

**Iau - Thursday**


**Pos / Puzzle**



Gan symud 3 ffon bach yn unig newidiwch gyfeiriad y pysgodyn.
By moving only 3 sticks, change the direction of the fish.



**Gwener – Friday**



**Tangram**

Gwnewch Tangram eich hun o'r templed.
Yr her nawr yw ffurfio llythyren E o'r darnau.
Make your own Tangram from the template provided.
The challence now is to form the letter E.




Cyswllt/Contact: selog@mentermon.com / facebook & twitter: @SelogAp

©MenterIaithMon 2020